

Y PWYLLGOR ADOLYGU GWASANAETHAU ARCHWILIO A CHORFFORAETHOL

14 Chwefror 2018

Yn bresennol: Y Cynghorydd M Williams (Cadeirydd)
Mr A Archer, y Cynghorydd D Clements, Mrs G Hayward, y
Cynghorydd M James a'r Cynghorydd R Owens.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 11.15am)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd P Baker, y Dr R Heath Davies a'r Cynghorydd P Kidney.

2. Datgelu buddiant

Datgelodd Mr A Archer fuddiant personol yn eitem 04/18 Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ond arhosodd yn yr ystafell gan gymryd rhan lawn yn y drafodaeth.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2017 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2017.

4. Y Grŵp Iechyd a Diogelwch: adroddiad am gyfarfod

Trafododd yr Aelodau adroddiad am y cyfarfod o'r Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2017.

PENDERFYNWYD derbyn adroddiad am y cyfarfod o'r Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2017.

5. Meincnodi Perfformiad Awdurdod Cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Soniwyd fod Adroddiad Llywodraeth Cymru am y Perfformiad Blynyddol o ran Cynllunio dros Gymru Gyfan am y cyfnod rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2017 wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar. Roedd yn cynnwys crynodeb o'r prif ddangosyddion cynllunio ar sail meincnodau yn y meysydd a ganlyn: effeithlonrwydd, ansawdd, ymgysylltu a gorfodi. Yn yr adroddiad a oedd gerbron y Pwyllgor, roedd crynodeb o berfformiad yr Awdurdod ym mhob un o'r categorïau hyn. Daethpwyd i'r casgliad ei fod yn perfformio'n dda o ran effeithlonrwydd wrth ei feincnodi ar sail nifer o brif ddangosyddion cynllunio yn y categori hwn. Lle'r oedd y data wedi tynnu sylw at feysydd i'w gwella o ran ansawdd, ymgysylltu a gorfodi, roedd



camau wedi'u rhoi ar waith i fynd i'r afael â pherfformiad yn y meysydd hynny.

Roedd yr Aelodau'n fodlon â pherfformiad yr Awdurdod ar y cyfan, ond mynegwyd rhai pryderon am effaith y swyddi gwag yn y tîm ar gwrdd â'r dangosyddion perfformiad, a chytunodd y swyddogion i ddarparu gwybodaeth am y mesurau a oedd ar waith i gwmpasu absenoldebau. Soniwyd hefyd y byddai gweithdy ar orfodi yn cael ei gynnal ym mis Mawrth, lle byddai cyfle i drafod y materion hyn ymhellach.

NODWYD.

6. Adroddiad ar Berfformiad am y Cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2017

Atgoffwyd yr Aelodau gan y Cydgysylltydd Perfformiad a Chydymffurfio fod strwythur Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau'r Awdurdod ar gyfer 2017/18 yn adlewyrchu'r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd yr adroddiad am berfformiad hefyd wedi'i addasu i fod yn gydnaws â'r nodau hyn, ynghyd ag adran ychwanegol yn rhoi gwybodaeth gyffredinol am lywodraethu. Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at berfformiad hyd at 31 Rhagfyr 2017, ac roedd yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y dangosyddion hynny lle'r oedd y goleuadau traffig ar goch.

Roedd yr adroddiad yn sôn bod nifer yr ymwelwyr â'r canolfannau wedi gostwng ychydig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Dywedodd un o'r Aelodau fod Oriel y Parc wedi arddangos darlun Constable 'Salisbury Cathedral' yn ystod haf 2016, ac y gallai hynny esbonio'r gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr y flwyddyn ganlynol ac y dylid sôn amdano yn yr adroddiad. Pwysleisiodd yr Aelodau ei bod yn bwysig bod arddangosfeydd o'r radd flaenaf yn cael eu cynnal yn y Ganolfan, a rôl allweddol Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru, ac yn fwy diweddar, Tate Britain, o ran cyflawni hyn. Byddai arddangosfa newydd gan Tate Britain, a fyddai'n cynnwys 'Le Passeur' gan William Stott o Oldham, yn agor yn Oriel y Parc ar 23 Chwefror.

Yn yr adran honno o'r adroddiad a oedd yn ymwneud â llywodraethu a sefydlogrwydd ariannol, gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am sut y byddai'r gwasanaethau twristiaeth yn cael eu darparu ar ôl cau Canolfan Ymwelwyr Trefdraeth, ac ar ba ddyddiad y byddai adroddiad ar gael am y gwaith o gasglu safbwyntiau busnesau twristiaeth yng Ngogledd Sir Benfro. Roeddynt o'r farn bod angen i'r cyhoedd yn Nhrefdraeth gael gwybodaeth glir am y trefniadau yn ystod y tymor a oedd ar ddod, er mwyn osgoi achosi niwed i enw da'r Awdurdod.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad am berfformiad.



7. Llythyr Archwilio Blynyddol 2016-17

Soniwyd fod llythyr Archwilio Blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyfeirio at ei gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio. Derbyniwyd y llythyr gan yr Awdurdod ym mis Ionawr, ac roedd yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldeb o ran llunio adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau. Felly, ar 26 Medi 2017, cafwyd tystysgrif yn cadarnhau fod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau.

Nododd yr Aelodau fod y paragraff olaf yn cyfeirio at y ffi am wneud yr archwiliad arainnol yn 2016-17, a mynegwyd pryder am raddfa'r ffioedd a oedd yn cael eu talu gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru. Er bod hyn wedi cael ei godi o'r blaen, roeddynt yn awgrymu y gellid ei godi gyda'r Gweinidog unwaith eto, pan fyddai cyfle.

NODWYD.

8. Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2017/18

Atgoffwyd y Pwyllgor gan y Rheolwr Cyllid ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Roedd datganiad drafft 2017/18 wedi'i ddosbarthu ymhlith yr Aelodau, a chawsant eu gwahodd i gyfrannu ato ac at ei gynnwys. Rhagwelwyd y byddai'r Datganiad yn cael ei drafod gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 28 Mawrth, ac felly gofynnwyd i'r Aelodau sôn wrth y swyddogion am unrhyw faterion yr oeddynt yn dymuno eu trafod erbyn dechrau mis Mawrth.

Soniodd un o'r Aelodau fod yr Awdurdod wedi sefydlu Pwyllgor Craffu a bod y pwyllgor hwnnw wedi gwneud rhai adolygiadau defnyddiol. Serch hynny, nid oedd rhaglen waith y Pwyllgor wedi'i diwygio ac nid oedd unrhyw adolygiadau ar y gweill. Yn yr un modd, nid oedd unrhyw eitemau wedi'u hatgyfeirio at y Grŵp Gwelliant Parhaus ac nid oedd unrhyw Weithgorau Gorchwyl a Gorffen yn cyfarfod ar hyn o bryd. Felly, awgrymodd fod gan yr Awdurdod strwythurau yn eu lle nad oedd yn eu defnyddio.

Atebodd y swyddogion, os oedd unrhyw Aelod yn anghyfforddus ag unrhyw agwedd ar berfformiad yr Awdurdod, bod ganddynt gyfle i gyfeirio eitemau at y Grŵp Gwelliant Parhaus ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Adolygu. Awgrymwyd y gallai trefniadau'r dyfodol o ran y pwyllgor craffu a'r gweithgorau gael eu trafod mewn gweithdy i'r Aelodau a fyddai'n cael ei gynnal yn ystod y misoedd nesaf.

NODWYD.

9. Adroddiad am Berfformiad y Gyllideb – 9 mis hyd at fis Rhagfyr 2017



Roedd adroddiad y Rheolwr Cyllid yn dangos fod y gwariant refeniw net yn £3,388,000, a oedd £307,000 (8.3%) yn llai na'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer y cyfnod o 9 mis, ac roedd y prif resymau am yr amrywiad wedi'u nodi. Y prif resymau oedd cynnydd yn yr incwm o ffioedd cynllunio, meysydd parcio, gwerthu nwyddau, a ffioedd mynediad yn y Canolfannau. Holodd yr Aelodau am y nifer isel a oedd yn dewis hysbysebu yn *Coast to Coast* ac a oedd hyn yn debygol o gael ei adfer. Atebodd y swyddogion fod rhai cwmnïau wedi rhoi'r gorau i hysbysebu eleni ac felly roedd yr incwm yn debygol o fod yn is, ac yn debygol o ddod dan ragor o bwysau yn y dyfodol oherwydd yr hinsawdd economaidd.

Rhoddwyd manylion y Rhaglen Gyfalaf a'r cronfeydd Defnyddiadwy a Neilltuedig.

Llongyfarchwyd y swyddogion gan yr Aelodau am y modd yr oedd y gyllideb wedi'i rheoli, ond roeddynt yn cwestiynu tybed a ellid beirniadu'r Awdurdod am lefel ei gronfeydd wrth gefn. Esboniwyd fod y lefelau hynny wedi'u trafod â'r Swyddfa Archwilio a oedd yn fodlon â hwy, ond y gallai'r cronfeydd wrth gefn ostwng yn gyflym pe byddai gostyngiad sylweddol yn y gyllideb yn y dyfodol.

NODWYD.

10. Trosglwyddiadau dros £20,000 ym Mlwyddyn Ariannol 2017/18 ac Amrywio Contractau

Atgoffwyd yr Aelodau fod Safonau Ariannol yr Awdurdod, a oedd yn rheoli trosglwyddiadau dros £20,000, yn ei gwneud yn ofynnol i gael cymeradwyaeth benodol y Prif Swyddog Cyllid a'r Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol neu Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Felly, gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo'r trosglwyddiadau a wnaed ym mlwyddyn ariannol 2017/18 fel y'u nodwyd.

Soniwyd hefyd y disgwyliwyd yn wreiddiol i gontract i drwsio'r llwybrau yng Nghastell Caeriu gostio rhwng £7,000 a £9,000. Fodd bynnag, roedd y gost wedi cynyddu wrth i'r gwaith fynd rhagddo ac roedd wedi mynd dros y trothwy ar gyfer y rheolau tendro fel y nodir yn Adran 73 o Safonau Ariannol yr Awdurdod. I osgoi sefyllfa lle na fyddai'r llwybr ar gael yn ystod yr haf, penderfynwyd parhau â'r contractwr. Roedd y gost ddiwygiedig tua £14,000.

Sicrhawyd yr Aelodau fod y contractwr wedi cael ei ddefnyddio o'r blaen, a bod y swyddogion yn fodlon â'r gwaith a wnaed ganddo.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r trosglwyddiadau o dros £20,000 a wnaed ym mlwyddyn ariannol 2017/18 a'r amrywiad i'r Rheolau Sefydlog



ar Gontractau ar gyfer y gwaith o drwsio'r llwybrau o gwmpas Castell Caeriw.

11. Darparu Gwasanaethau Archwilio Mewnol

Soniwyd fod yr Awdurdod yn 2015, ar y cyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, wedi cynnal tendr llawn ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio mewnol am gyfnod o dair blynedd. Yn sgil y broses honno cafodd Gateway Assure eu penodi yn archwilwyr mewnol yr Awdurdod am y blynnyddoedd ariannol 2015/16, 2016/17 a 2017/18.

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a fyddai'n briodol ymestyn y contract gyda Gateway Assure i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol, neu a ddylai'r Awdurdod fynd allan i dendr eto.

Er eu bod yn cydnabod bod budd mewn newid archwilwyr yn rheolaidd, teimlai'r Aelodau fod y gwasanaeth a ddarperir gan Gateway Assure wedi bod yn effeithiol, a bod yr adroddiadau a gynhyrchir gan y cwmni yn glir ac yn hawdd eu deall.

PENDERFYNWYD ymestyn y contract gyda Gateway Assure i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol am ddwy flynedd arall.

12. Y Gofrestr Risg

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid y gofrestr risg ddiweddaraf a gafodd ei hadolygu'n ddiweddar gan Dimau Rheoli ac Arweinyddiaeth yr Awdurdod, a fu'n nodi cynnydd a newidiadau. Nid oedd unrhyw newidiadau mawr o ran risg wedi eu nodi na'u dileu yn ystod y chwarter.

NODWYD.

13. Newidiadau Deddfwriaethol o ran Diogelu Data

Dywedwyd y bu'n rhaid gohirio'r cyflwyniad hwn unwaith eto tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

NODWYD.

14. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus

PENDERFYNWYD nad oedd unrhyw faterion o bryder yr oedd y Pwyllgor am eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

